**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 15-03-21**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Steve Collings, Annwen Hughes, Edgar Owen, Elfed Williams, Gareth Morris Jones, Elin W Jones, Eryl Jones-Williams, Angela Russell, Gareth Williams a Roy Owen

**Swyddogion:**

Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ELFED WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ANNWEN HUGHES YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes a'r Cynghorydd Dafydd Owen

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Rhagfyr 2il 2019 fel rhai cywir

**7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU**

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau a gynhaliwyd

26-01-21, 05-01-21, 26-11-20, 09-03-20, 18-12-19, 05-11-19 a 20-09-19

## 8. EFFAITH YR ARGYFWNG COVID 19 AR WASANAETHAU TRWYDDEDU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu yn amlinellu gwaith yr Uned Drwyddedu gan fanylu ar y modd maent wedi ymateb i argyfwng covid 19 drwy addasu a blaenoriaethu eu cyfrifoldebau er mwyn cyfrannu at yr ymdrech o reoli ymlediad yr haint ynghyd a pharhad gwasanaethau 'arferol'.

Tynnwyd sylw at effaith yr argyfwng ar y gwasanaethau trwyddedu a hefyd at y cyfnod heriol sydd yn wynebu'r gwasanaeth wrth ddod allan o gyfnod clo. Ategwyd y bydd angen adolygu dogfennau polisi dros y flwyddyn nesaf gan ddechrau gyda'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003. Pan fydd newidiadau wedi ei gwneud i'r Polisi (drafft) ar draws Gogledd Cymru, y bwriad yw cyflwyno'r Polisi drafft newydd i'r Pwyllgor, cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros yr Haf.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn a'r 'newidiadau bychan' (para 4.6) sydd angen eu gwneud i'r Polisi drafft, mynegwyd mai 'newidiadau bach oeddynt fyddai'n adlewyrchu deddfau a ffigyrau cyfredol gyda'r gwaith sylweddol o addasu'r Polisi eisoes wedi ei weithredu.

Canmolwyd Swyddogion yr Uned Trwyddedu am eu gwaith a'u cefnogaeth dros gyfnod yr argyfwng.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.50am a daeth i ben am 11:10am